# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GYMDEITHASOL, LLANELIAN YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 7fed o DACHWEDD, 2022.**

## 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr John EVANS; Bryn JONES; Glena HUMPHREY; D Gwyn JONES; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; a'r Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Gethin OWEN a John D Roberts

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

## 5. MUNUDAU

Wedi nodi a chywiro y ddau item ganlynol cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi, 2022. (Cynnig y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS).

a. Item 26a – i ddarllen Cronfa y Parc Solar a dim y Praesept

b. Item 26c – i ddarllen Dafydd ROBERTS a dim Dafydd JONES.

## 6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 7. CYLLID

a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Hydref 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

(1) Cyfrif Cymunedol = £9,990.47 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn = £0.00

| | | |
|---|---|---|
| | Arian Allan | = £5.40 (Costau Banc - DR) |
| | | = £360.00 (J&D Fabrication – Fens Coeden Jiwbili – 200144) |
| | | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | Heb ei Cyflwyno | = £270.00 (CCBC - Cost Etholiadau Lleol – 200147 |
| | | = £37.00 (RBL – Torch x 2 ar gyfer Sul y Cofio – 200145) |
| | | = £55.80 (Aston Hughes – Gwasanaeth Cyflog – 200141) |
| | Cyfrif Cymunedol | = £9,118.28 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,553.67 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Cyfrif Busnes | = £5,553.67 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £14,671.95 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb i'r trydydd cais ac hefyd am ateb i'r llythyr yn cwyno am brosesau cymleth a lluosogol y banc.

c. Mae ceisiadau yn dod i mewn tuag at baratoi y praesept y flwyddyn nesaf. Bydd rhain yn cael ei trafod yn y cyfarfod nesaf.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Ceisiadau am grantiau lleol iw cynnwys ym mhraesept y flwyddyn nesaf

**ii. Anfonwyd**

b. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
c. Ceisiadau i Adran ERF, CBSC ar gyfer Gwaith angen ei wneud ar Ffordd y Figyn ayyb
d. Ebyst i Adran Economi a Diwylliant CBSC yngluna grant tuag at Cynnal a Chadw y Cae Chwarae yn Betws yn Rhos.
e. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor**

a. Ty Gobaith
b. Cerebral Palsy
c. Henoed Llanelian
d. Mynwent Trofarth
e. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
f. Kids Cancer Charity
g. Urdd Gobaith Cymru

ii. **Caisiadau gan y Cyngor**

a. Lleoedd LLeol ar Gyfer Natur - tuag at blannu blodau gwyllt ayyb yn ymyl Pafiliwn y cae chwarae yn Betws yn Rhos wedi cael ei llenwi a'i gyrru i mewn – Bu hwn yn llwyddianus a disgwylir y pecyn yng ngwanwyn 2023.

b. Ateb o Adran Economi a Diwylliant CBCS ynglun a grant i'r Cae Chwarae. Daeth aelod o adran ERF y Cyngor Sir I edrych ar y cae chwarae a dywedodd y byddai nhw yn adnewyddu ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr offer oedd yno yn barod. Byddai rhaid i unrhyw offer newydd gael ei dalu drwy grant leol neu lotri. Bydd rhaid i hyn gael ei wneud gan grwp lleol gyda cymorth gan y Cyngor Cymuned.

**10. CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

a. Rhif y Cais: 0/50144 Natur y Cais: Llawn

Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos

Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council

Lleoliad: Penoros, Ffordd Croes Engan, Trofarth, Betws Yn Rhos LL22 8BT

Cais: Codi parlwr godro newydd, creu trac 235m newydd i'r safle, ac adeiladu pit slyri gyda gwaelod plastig..

Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru).

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Mae tebygrwydd y bydd diffyg yng nghyllideb y Cyngor Sir y flwyddyn hon a fydd yn gwrthdrawo ar ei hadnoddau yn 2023. Bydd hyn yn ychwanegol i'r gostyngiadau fydd angen yn dilyn yr enciliad ariannol gwledig a byd-eang presennol.

**13. CYFARPAR CHWARAEON I BLANT IAU AR Y CAE CHWARAE.**

Gweler 9iib uchod. Bydd angen gwneud yr atgyweirio, yn ogystal a'r cynnal a chadw cyn medru gosod unrhyw offer newydd. Bydd angen arriannu unrhyw offer newydd drwy gronfa'r loteri neu grantiau lleol. Nid yw'r Cyngor Cymunedol yn cael ceisio am grantiau cyffelyb yn uniongyrchol ond medrant gynorthwyo unrhyw grwp neu sefydliad arall lleol I wneud hynny.

**14. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. 'Rydym nawr wedi cael dyfynbris rhesymol. Mae angen penderfyny

ymhle fydd cyfarfodau y Cyngor yn cael ei cynnal yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siwr y bydd yr offer yn addas, ac hefyd fod ganddom yswiriant digonol ar ei gyfer. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Cymunedol yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos i gael asesu ei addasrwydd.

**15. GORDYFIANT AR LONYDD GWYRDD A LLWYBRAU LLEOL**

Mae archwyliad i faint ac ymhle oedd y lonydd a'r llwybrau hyn yn dal ar y gweill, a bydd dynesiad i'r Cyngor Sir yn cael ei wneud amdanynt i gyd. Mae ambell i gamfa yn awr angen ei cynnal a'i cadw hefyd. Mae angen cyflawni hyn yn eitha buan.

**16. ARWYDD FFORDD HEN FFASIWN AR GORNEL PLAS YN BETWS A CAPEL BACH SION**

Aros am ddyfynbris a'r posibilrwydd o wneud arwydd newydd gan gwmni lleol.

**17. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR & GWYNT Y MOR**

Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau. Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau. Mae prosiect arall ar y gweill yn awr hefyd sef Gwynt y Mor. Mae'n bosib y bydd y ceblau o'r brosiect hon yn cael ei gyrru drwy ranau o ardal Betws yn Rhos.

**18. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae posteri yn awr ar gael wrth fynd ar www.moelfre2022@gmail.com. Fe ddisgwyliwn tan y bydd yna gais am gynllunio yn ein hardal cyn symud hyn ymlaen.

**19. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas..

**20. Y GADLAS**

Bydd unrhyw fater o ddiddordeb gan y Cyngor yn cael ei roi yn y rhifyn nesaf.

**21. PRAESEPT 2023/2024**

Mae ceisiadau am grantaiau ac arian gan y Cyngor Cymuned yn dod I law a byddant, ynghyd a costau angenrheidiol eraill y cyngor yn cael ei cysidro wrth benderfynny ar braesept 2023/2024. Bydd hyn yn cael ei penderfyny yn y cyfarfod nesaf.

**22. UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.40y.h.

CADEIRYDD: Irwedd Griffiths DYDDIAD: 9fed Ionawr 2023